Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 26(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano gan fanwerthwyr alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru i berson yng Nghymru, ac mae'n sefydlu cyfundrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.

Mae adran 1 o Ddeddf 2018 yn nodi'r fformiwla sydd i'w chymhwyso wrth gyfrifo'r isafbris cymwys at y diben hwn. Y fformiwla honno yw I x Cr x Cy.

I yw'r isafbris uned a bennir mewn rheoliadau; Cr yw cryfder yr alcohol, a fynegir fel rhif prifol (felly er enghraifft os yw'r cryfder yn 5%, 5 fydd y rhif prifol perthnasol); a Cy yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu mai'r isafbris uned (I) at ddibenion Deddf 2018 yw £0.50.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am y Rheoliadau hyn ar ffurf ddrafft yn unol â Chyfarwyddeb (EU) 2015/1535 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ L 241, 17.9.2015, t. 1) sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes rheoliadau technegol a rheolau ar Wasanaethau'r Cymdeithasau Gwybodaeth.

DRAFT

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 26(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru..

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1)(a) a 26 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Yn unol ag adran 26(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

(**1**) 2018 dccc 5; *gweler* adran 27(3) i gael y diffiniad o "rheoliadau".

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XXXXX 2019.

Yr Isafbris Uned

2. Yr isafbris uned at ddibenion adran 1(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yw £0.50.

Vaughan Gething
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad XXXX 2019

DRAFT